



Y 1000 diwrnod cyntaf (ECEY4005/C

Gracie Reynolds 2011671

(Danone Nutricia Research, dim dyddiad)

Beth mae'r **1000 diwrnod cyntaf** yn ei olygu ym mywyd babi?



1 - (Tasnim news agency, 2015)

Mae'r 1000 diwrnod cyntaf o fywyd babi yn dechrau o genhedlu i 2 oed. Mae'r diwrnodau hyn yn gallu cael effaith gyddoroes ar iechyd a lles y babi. Wrth wneud yn siŵr bod eich plentyn yn cael beth sydd ei angen arno yn ei flynyddoedd cynnar, bydd hyn yn helpu paratoi'r plentyn ar gyfer bywyd iach. Yn yr amser hwn mae'r ymennydd, corff a'r system imiwnedd tyfu ac yn datblygu'n sylweddol. (Pregnancy birth & baby. 2019)

Pam mae'r 1000 diwrnod cyntaf yn bwysig

Yn ôl y llawlyfr A child's first 1000 days (2019) mae'r datblygiad cyflymaf yn digwydd yn ystod y 1000 diwrnod cyntaf o fywyd, ond mae hefyd yn addasu ac yn newid trwy gydol bywyd. Mae'r datblygiad hyn yn hollbwysig at gyfer dysgu hanfodol – cerdded, siarad, meddwl agweld. Mae'r cyfleoedd gorau ar gyfer datblygiad ymennydd yn ystod 3 mis olaf beichiogrwydd a hyd at 2 flwydd oed.

Beth yw anghenion babanod?

Mae

plant angen llawer o gariad. Wrth ofalu a rhoi cymorth bydd y plentyn yn teimlo'n ddiogel wrth archwilio'r byd maent yn byw ynddo. Mae anwyldeb, cariad a sylw yn y 2 mlynedd gyntaf o fywyd yn cael effaith wirioneddol ar ddatblygiad emosiynol, corfforol a meddyliol y plentyn. Felly rhoi cwtsh, annog, cyffwrdd, gwenu, chwarae a gwrando arnyn nhw bryd bynnag.

Anghenion sylfaenol babanod

Mae pwysig bod babanod gydag iechyd da a digon o egni i dyfu a dysgu. Mae'n bwysig bod y rhiant/gofalwr yn cadw lan gydag imiwneiddiadau, i sicrhau bod y babi yn cael eu hamddiffyn rhag clefydau difrifol.

Mae cwsgr yn bwysig i'r babi, i sicrhau bod y babi yn cael digon o orffwys bydd hyn yn helpu'r babi datblygu'n iawn ac yn tyfu'n dda. Angen arall yw bwydo.

Mae llaeth y fron neu laeth fformwla yn rhoi'r holl faetholion sydd angen ar y babi am y chwe mis cyntaf. Bydd llaeth yn chwarae rhan bwysig yn ddiet y babi am y flwyddyn gyntaf o fywyd. Yn ôl y wefan hon mae babanod sydd yn cael ei fwydo'r o'r fron yn llai tebygol o ddioddef o ddolur rhydd, heintiau gyda'r clust, problemau anadlu a chyflyrau alergaidd fel ecsema ac asthma. Mae'n hefyd yn dweud hyd yn oed dydy llaeth fformiwla ddim yn atgynhyrchu'r holl briodweddau mae llaeth y fron yn, mae'r babanod sydd yn cael ei bwydo a fformiwla dal yn ffynnu.

Mae amser bwydo yn amser pwysig i roi gwtsh a chyswllt llygaid i'r babi.

Mae gofal dyddiol hefyd yn bwysig i ddatblygiad babanod. Mae'n hanfodol bod y babi yn gyfforddus, ac os mae'r babi yn rhy dwym neu mae cewyn y babi yn llawn mae angen ymateb yn gyflym trwy efal lai tynnu dillad bant a newid y cewyn.

Mae'n hefyd yn bwysig bod y rhiant/gofalwr yn edrych ar ôl ei hunain. Os mae'r rhiant/gofalwr yn teimlo'n flinedig, efallai ceisio rhannu'r cyfrifoldeb gyda phartner, neu os mae'r rhiant/gofalwr yn rhiant sengl ceisio amgylchynu gyda phobl sydd yn rhoi cymorth a chefnogaeth. Mae mamau yn gallu dioddef o iselder ôl-enedigol neu efallai yn gweld yn anodd bondio gyda'r babi. (Baby centre 2021)

Themau Allweddol

Maeth

Mae maeth yn ffactor bwysig iawn yn ystod y 1000 diwrnod cyntaf. Mae cael maeth da yn ystod beichiogrwydd a trwy fywyd cynnar yn hanfodol ar gyfer iechyd y plentyn yn y dyfodol. Beth bynnag mae'r fam yn bwyta yn mynd i'r groth lle mae'r babi. Hefyd mae pwysau ac arferion ei ffordd o fyw yn gallu dylanwadu ar sut mae system imiwneidd, organau a metaboledd y babi yn datblygu. Mae cael maethiad gwael yn ystod beichiogrwydd a bywyd cynnar y babi yn gallu arwain at glefyd y galon, strôc a gordewdra. Y ffordd i roi dechrau gorau i'r babi yw cael diet iach wrth i'r fam fod yn feichiog a bwydo o fron am o leiaf 6 mis os yn bosibl. Unwaith mae'r babi yn dechrau bwyta bwydydd solid, gall y fam helpu'r babi ddatblygu arferion bwyta'n iach am oes. (Pregnancy birth & baby. 2019)

Amgylchedd

Ffactor arall sydd yn bwysig yn ddatblygiad plentyn yw amgylchedd.

Mae amgylchedd yn effaith mawr ar les plant.

Mae cael cartref diogel aciach yn hanfodol i blentyn archwilio, dyfu a dysgu.

Mae cael cartref sydd yn ddiogel na iach cael effeithiau gwael ar y plentyn.

Yn enwedig ar ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol a deallusol. Hefyd mae cael cartref negyddol yn ystod blynyddoedd cynnar bywyd yn gallu arwain at ddatblygiad diffygiol. Mae'r effeithiau hyn yn cynnwys

- Problemau ymddygiad
- Diffygion parodrwydd yn ysgol
- Sgiliau iaith wael

(The urban child Institute 2013)

Perthynas

Thema arall sydd yn effeithio datblygiad plentyn yw perthynas. Mae'r ffactor hyn yw'r ffactor pwysicaf o ddatblygiad plentyn. Pwy bynnag yw'r gofalwr,

y gofal ac rydych yn darparu i'r plentyn yn helpu i amddiffyn eich yn gorfforol ac emosiynol.

Yn ôl y wefan hon mae rhieni sydd yn gwario llawer o amser gwerthfawr yn creu bond cryf sydd yn ddiogel. Wrth wneud hyn bydd y plentyn yn tyfu gydag ymlyniad a hyder sicr. Bydd yr amser mae'r gofalwr yn buddsoddi mewn magu'r plentyn yn dangos yn ei datblygiad wrth i'r plentyn tyfu yn gadarnh aol.

Y pethau gall rhieni/gofalwr gwneud i sicrhau bond cryf gyda'r plentyn yw darllen yn gyson, bydd hyn sefydlu trefn a helpu'r ddau gysylltu gyda'i gilydd.

Mae chwarae yn rhywbeth pwysig iawn, mae hyn yn helpu sefydlu perthynas agos a hefyd helpu'r plentyn datblygu sgiliau modur.

Y peth olaf yw siarad gyda'r plentyn am sut oedd diwrnod y plentyn, mae hyn dangos bod barn y plentyn yn bwysig ac yn werthfawr i'r rhiant/gofalwr. (Firstcry 2020)



2 - (Danone Nutricia Research, dim dyddiad)



3 - (Age of Montessori, dim dyddiad)



4 - (Mother to be, dim dyddiad)

Gofal parchus

Mae egwyddorion gofal parchus, yn enwedig yn ystod cyfnodau o ofal cynnar, yn creu craidd o ymddiriaeth a thawelwch yn y plentyn.

Mae hyn yn caniatáu i'r plentyn archwilio ei hunain a'r amgylchedd. Mae'r ddwy egwyddor hyn yn gydgysylltiedig. (Early Years Educator 2015)

Mae tair egwyddor allweddol i sicrhau gofal plant parchus

1. Rhyddid i symud
2. Parchu hyder a chymhwysedd babanod
3. Gofal sylfaenol

Rhyddid i symud

Mae egwyddor rhyddid i symud yn bwysig iawn am ddatblygiad y plentyn, mae'n helpu datblygu meddyliau ac emosiynau a hefyd eu corff.

Dylai ymarferydd annog babanod i adeiladu cyhyrau yn eu bol, trwy osod teganau allan nad yw'r babanod yn gallu cyrraedd.

Mae hyn yn golygu bod angen ymestyn i gyrraedd y teganau. Bydd hyn hefyd yn cyfri tuag at gyfnod cyntaf o ddatblygiad corfforol. Hefyd wrth wneud y gweithgaredd hwn mae'r babanod yn dysgu sut i e drych lan, i'r dde ac i'r chwith. Wrth i'r babanod symud eu pen o gwmpas yn helpu datblygiad eu penglog, cryfhau eu gwddf, ysgwyddau a chefnffyrdd.

Gall babanod sydd ddim yn cael llawer o amser bol, gyda'r anfantais o ddatblygu yn arafach na babanod sydd yn. Mae hyn golygu gall gymryd mwy o amser i'r babanod cyrraedd cerrig milltir, er enghraifft eistedd i fyny, cropian, a rholio drosodd.

Parchu hyder a chymhwysedd babanod

Mae egwyddor hyn yn golygu cynnwys plant yn y broses y gweithgaredd. Mae'r gweithgareddau'r cynnwys newid cewyn, newid dillad, golchi dwylo, neu gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae plant yn buddio wrth i'r ymarferydd siarad gyda nhw, enghraifft o hyn yw pryd mae'r plant yn bwyta bwyd gall yr ymarferydd siarad â'r plant am ble mae'r bwyd wedi dod o.

Mae'r wefan hyn dweud bod babandod yn elwa o gael cynnig dewisiadau, mae hyn yn helpu gydag y mddygiad, ac yn tynnu sylw os mae'r babi yn colli tymer. Mae'n bwysig bod ymarferydd yn cael ei hyfforddi i wybod a deall iaith corff ac ystumiau plant ac ymateb yn sensitif. Mae gadael i blant ymgysylltu ac aros am ymateb yn caniatáu cydnabod eu cymhwysedd a'i gwerth.

Gofal sylfaenol

Mae gofal sylfaenol yn canolbwyntio i greu perthynas arbennig rhwng grŵp bach o blant a gofalwyr. Trwy ganolbwyntio ar grŵp bach mae'n haws i'r rhiant a'r plentyn i fondio gydag un neu ddau oedolyn i ddechrau, bydd hyn yn helpu gyda'r cyfnod setlo ac yn gwneud yn fwy hapus a pherthynas barhaus yn y feithrinfa. Mae hyn yn helpu'r lleoliad dod i adnabod y rhiant, er mwyn galluogi'r plentyn i ddatblygu'r ffordd orau bosib.


Rhai pethau sydd yn dod o dan ofal parchus yw newid cewyn, golchi dwylo, arferion cysgu, sychu wyneb a'r trwyn, amser bwyd. Mae'n bwysig i wrth wneud unrhyw un o rain i fod yn barchus. Efallai bydd y plentyn ddim angen sychu trwyn. Wedyn mae da bod y gofalwr yn siarad gyda'r plentyn am beth sydd mynd i ddigwydd. Wrth wneud hyn bydd y plentyn yn fwy parod i dderbyn cymorth. (Tops day nurseries 2017)

Theori Pikler

Wnaeth Emmi Pikler creu ei ymagwedd yn 1930, un o'r prif arsylwadau wnaeth Pikler darganfod oedd bod babanod yn datblygu'r well, yn crio llai ac yn fwy hapus pan mae'r amgylchedd yn dawel a bod gofalwyr yn heddychlon, ac yn trin yn barchus yn enwedig yn ystod gweithgareddau gofalu fel newid cewyn neu olchi dwylo mewn ffordd barchus i'r plentyn. Roedd Pikler hefyd yn credu bod gan rieni a gofalwyr y cyfrifoldeb i gymryd amser i fwydo, gwisgo, ymolchi a newid cewynnau trwy sicrhau bod nhw yn gwneud hwn yn hamddenol ac yn braf. (Ette tete 2021)

Arsylwi

Wrth ddehongli bwriadau plant arsylwi nhw a thalu sylw manwl i iaith corff, ystumiau a chiwiau. Trwy arwyddion cynnil ac ystumiau sensitif, gall hyd yn oed y plentyn ifancach fynegi ei farn ac felly cael ei hawliau dynol. Trwy arsylwi mae'r ymarferydd yn dysgu beth mae'r plentyn eisiau, beth maen nhw hoffi a ddim yn hoffi. Hefyd beth maen nhw allu gwneud a beth galluoedd newydd. Mae arsylwi heddychlon hwn yn galluogi'r ymarferydd fynd ymhellach na theimlo empathi. Maen nhw feddwl yn ymhellach ac yn ddyfnach am beth fydd y plentyn eisiau. Trwy gydnabod ac ara fu fod gwell gan fabanod amgylchedd sydd yn ddifys tuag at ei arferion gofal unigol, datblygiad, a dysgu. I sicrhau hwn mae bod yn hyblyg ynghylch seibiannau a gweithio gydag anghenion a rhythmau'r babanod yn hytrach na gweithio gyda'r cloc. (The Pikler collection 2012)



5 - (Oskar's Wooden Ark, 2020)

Galluogi amgylcheddau a phrofiadau

Yn ôl y wefan nursery world

(2017) mae plant sydd wedi cael ystod eang o brofiadau yn tueddu siarad yn fwy ac yn cael llawer i ddeud.

Mae hyn oherwydd os mae oedolyn neu blentyn arall gyda'r plentyn i ryngweithio gyda, mae'n arfer ol i blant cyfathrebu gydag eraill am beth maen nhw yn weld neu beth yn wneud.

Mae hyn oherwydd bod iaith a chyfathrebu yn gyfnod cynharaf fel gweithgaredd emosiynol a cymdeithasol. Mae hyn profiad sydd uno a'i gilydd.

Mae'r wefan hefyd yn dweud bod yn ddiddorol bod rhai oedolion y well yn cyfathrebu pan mae'n ochr yn ochr â phlant yn ystod profiad. Mae'r rhyngweithiadau'n tueddu i fod yn hirach yn hytrach na rhai cyflym. Wrth l oedolion fod rhan o'r profiad maen nhw yn gwneud sylwadau mwy ystyrlon ac yn ei chael yn haws i ddilyn arweiniad plentyn. Yn draddodiadol anaml yr oedd oedolion yn rhan o chwarae plant ar wahân i fabanod neu blant bach.

Mae'n hefyd yn ymddangos bod ystod eang o brofiadau hefyd yn gallu helpu plant i adeiladu geirfa ehangach, oherwydd mae pob profiad newydd yn agor drysau i eirfa wahanol a penodol. Enghraifft o hyn yw os mae plentyn y coginio ac yn defnyddio wy yn ystod coginio mae mwy tebygol bydd y plentyn yn defnyddio'r gair 'cracio'. Neu enghraifft arall yw plentyn sydd strocio ci yn defnyddio gair 'meddal' sydd yn cyfeirio at got y ci.

Ond mae hefyd plant sydd ddim yn cael amrywiaeth o brofiadau yn eu bywydau. Fel anfanteision o ran addysg sydd yn dod ym mhob ffurf a ffurf. Mae rhai teuluoedd ddim gyda'r arian am gludiant, neu efallai i rai mae amser neu gyfleu yn brin. Am y plant hyn efallai bydd yn syniad da i gynllunio ystod o brofiadau ar eu cyfer nhw. Mae pwysig cynllunio i sicrhau bod y plentyn yn cael ystod o brofiadau. Yn rhai lleoliadau blynyddoedd cynnar gall cynllunio fod am ddwy flynedd, neu gynllun am rai misoedd.

Mae amgylchedd galluogi yn lle sydd yn gyfoethog ac amrywiol lle mae risgiau wedi lleihau a'u rheoli'n dda, ac mae plant yn cael ei ddiogelu ac amddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Dyma rhai pwyntiau sydd yn sicrhau bod yr amgylchedd yn amgylchedd galluogi.


1. Sicrhau bod y gweithgareddau yn gallu cael ei chynnal yn yr awyr agored a dan do, bod diogon o le i blant symud a chydweithio, ac yn annog archwilio a chymryd risg.
1. Creu amgylchedd sydd yn groesawgar, gynnes, feithringar, ac yn hwyluso ymdeimlad o berthyn.
1. Cynnig ystod o adnoddau, sy'n gyfarwydd yn ogystal â gweithgareddau sy'n newydd i blant a babanod.
1. Sicrhau bod yr amgylchedd a gweithgaredd yn addas ar gyfer anghenion yr holl blant.
1. Sicrhau bod pob aelod o staff yn deall y pwysigrwydd o adeiladu perthnasoedd cynnes a chefnogol a'r pwysigrwydd o feithrin datblygiad plentyn.
1. Cynnwys plant mewn gweithgareddau i adeiladu ei gwydnwch emosiynol a'u sgiliau cymdeit hasol.

(Early years alliance 2019)

Mae damcaniaeth Bronfenbrenner wedi rhoi llawer o bwyslais ar sut mae ffactorau gwleidyddol, diwylliannol ac economaidd ehangach.

Mae ffactorau hyn yn effeithio ar ddatblygiad a dysgu plant. Mae'n hefyd dynwedd bod gan bob plentyn bioleg unigryw ac nid yn unig yn chwarae rhan arwyddocaol yn eu datblygiad, ond hefyd sut maen nhw yn dysgu. Gallwch ddeall ei syniadau orau fel y berthynas rhwng bioleg unigryw pob plentyn a'r amgylchedd maent yn tyfu i fyny ynddo. Enghraifft o hyn yw brawd a chwaer sydd wedi cael ei magu yn yr un cartref gyda'r un teulu, sydd wedi mynychu'r yr un meithrin neu gylch chwarae ac ysgol. Hefyd sydd gyda'r un rhwydweithiau teuluol ehangach ond yn profi'r holl ffactorau hyn i gyd yn ffordd wahanol. (Parenta 2018)

Bronfenbrenner's Ecological Systems Theory



Basgedi trysor

Mae basgedi trysor yn cael ei llenwi gyda phethau naturiol sydd yn cael ei defnyddio pob dydd, pethau fel llwy metel, plu, brws hysgwr a charbonau wy. Nid yw'r syniad o chwarae gydag eitemau pob dydd yn rhywbeth newydd, ond wrth wneud basged trysor mae'n hybu'r babanod i arbrofi, archwilio a gwneud dewisiadau eu hunain wrth gymryd ei amser.

Gall ffocws y babi para am tuag awr neu fwy. Mae'r cynnwys y fasged trysor yn ysgogi chwilfrydedd y babi ac yn caniatáu iddyn nhw ddarganfod gwrthrychau trwy brofiadau uniongyrchol. Bydd y babi yn mwynhau gwneud penderfyniadau annibynnol trwy chwarae gyda'r eitemau. Wrth i'r babi chwarae ac archwilio gyda'r fasged trysor, dylai'r oedolyn fod yn sylwgar, ond dim ymyrryd, ond am i sicrhau diogelwch a chynnal cylltiad cymdeithasol a'r babi. Mae'n bwysig nad yw'r oedolion yn cymryd rhan yn y sesiynau basged trysor, a bod yn ofalus i beidio ag ymyrryd neu arwain y babi. Ond wrth i'r oedolion rhyngweithio a chyfathrebu yn sensitif yn ychwanegu at gyfoeth y profiad. (Tops day nurseries 2017) [Basgedi Trysor](#)



7 - (Google images, 2018)

Llywodraeth

Mae gan y llywodraeth cyfrifoldeb i wella gwasanaethau i gefnogi teuluoedd a rhieni i edrych ar ôl eu hunain a'i phlant mae hyn yn hanfodol.

Y pwysau cymdeithasol yw tai gwael, cyflogaeth ansefydlog, tlodi.

Mae ffactorau hyn yn creu amgylchedd sydd ddim yn ddiogel, dim yn iach a dim yn feithringar gyfer eu plant.

I wella cefnogaeth i rhieni, teuluoedd a phlant yn ystod cyfnod bregus angen ymateb hirdymor a chyd cysylltiedig yn genedlaethol ac yn lleol. Dylai'r llywodraeth arwain drwy ddatblygu strategaeth hirdymor a hefyd am y

1000 diwrnod cyntaf o fywyd. Trwy osod nodau heriol i leihau profiadau niweidiol yn ystod plentynod, lleihau tlodi plant, gwella parodrwydd ar gyfer dechrau ysgol a lleihau marwolaethau babanod. (House of Commons Health and Social Care Committee 2019)

Casgliad

Mae'r wybodaeth yn awgrymu bod y
1000 diwrnod cyntaf o fywyd yn bwysig iawn i sicrhau datblygiad orau bosib i fabanod.
Mae hefyd yn awgrymu fod sut mae'r fam y babi yn edrych ar ôl ei hunain yn effeithio bywyd y babi.
Mae amgylchedd hefyd yn chwarae rhan fawr yn fywyd y babi. Mae'n bwysig bod
y babi yn tyfu ian yn amgylchedd cariadus a tawel.
Mae ffactorau gwahanol fel maeth hefyd yn chwarae rhan fawr yn y
1000 diwrnod cyntaf. Heb ddiet iawn bydd y babi ddim y datblygu yn iawn neu yn datblygu yn araf.
Yn gyffredinol mae'r 1000 diwrnod cyntaf yw cyfnod mwyaf pwysig o fywyd.

Rhestr cyfeirnod

Age of Montessori. (Dim dyddiad) *Preparing for Baby – 4 Ways to Create a Montessori Environment for an Infant or Toddler*. Ar gael o: <https://ageofmontessori.org/preparing-montessori-environment/>.
(Darllenwyd 13 o Ionawr 2022)

Baby centre. (2021) *What your baby needs to thrive*. Ar gael o: <https://www.babycentre.co.uk/a1012877/what-your-baby-needs-to-thrive>.
(Darllenwyd Ionawr 19 2022)

BASW Pocket Guide. (2019) *A child's first 1000 days*. Ar gael o: <https://www.basw.co.uk/system/files/resources/181076%20A%20childs%20first%201000%20days%20pocket%20guide%20.pdf>. (Darllenwyd 6 Ionawr 2022)

Danone Nutricia Research. (Dim Dyddiad) *The first 1000 days: a unique window of opportunity to shape lifelong health*. Ar gael o: <https://www.nutriciaresearch.com/nutrition-for-life/early-life-nutrition/the-first-1000-days-a-unique-window-of-opportunity-to-shape-lifelong-health>.
(Darllenwyd: 6 o Ionawr 2022)

[Early years alliance](https://www.eyalliance.org.uk/enabling-environments). (2019) *Enabling environments*. Ar gael o: <https://www.eyalliance.org.uk/enabling-environments>.
(Darllenwyd 16 Ionawr 2022)

Early years educator. (2015) *Respectful mealtimes*. Ar gael o: <https://www.earlyyearseducator.co.uk/features/article/respectful-mealtimes#:~:text=The%20principles%20of%20respectful%20care,The%20two%20principles%20are%20interconnected>. (Darllenwyd 17 Ionawr 2022)

Ette tete. (2021) *The Emmi Pikler approach: Compact Ultimate Guide*. Ar gael o: <https://ettetete.com/blogs/news/ultimate-article-about-emmi-pikler-approach-and-principles?ls=en&cache=false>. (Darllenwyd 19 Ionawr 2022)

House of Commons Health and Social Care Committee. (2019) *First 1000 days of life*. Ar gael o: <https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmhealth/1496/1496.pdf>.
(Darllenwyd 17 Ionawr 2022)

Mother to be. (Dim dyddiad) *Is It Safe for Me and My Baby?* Ar gael o: <https://mothertobaby.org/>.
(Darllenwyd 13 Ionawr 2022)

Nursery world. (2017) *Enabling Environments: Learning Experiences - A world of difference*. Ar gael o: <https://www.nurseryworld.co.uk/features/article/enabling-environments-learning-experiences-a-world-of-difference>. (Darllenwyd 14 Ionawr 2022)

Oskar's Wooden Ark. (2020) *The Pikler Approach*. Ar gael o: <https://www.oskarswoodenark.com.au/blogs/story/the-pikler-approach>. (Darllenwyd 14 Ionawr 2022)

Parenta. (2018) *Bronfenbrenner: children's learning in a wider context*. Ar gael o: <https://www.parenta.com/2018/09/01/bronfenbrenner-childrens-learning-in-a-wider-context/>. (Darllenwyd 13 Ionawr 2022)

Parentcry. (2020) *5 Important Factors That Influence Early Childhood Development*. Ar gael o: <https://parenting.firstcry.com/articles/5-environmental-factors-influencing-early-childhood-development/>. (Darllenwyd 8 Ionawr 2022)

Pregnancy birth & baby. (2019) *The first 1,000 days*. Ar gael o: <https://www.pregnancybirthbaby.org.au/the-first-1000-days>. (Darllenwyd: 7 o Ionawr 2022).

Tasnim news agency. (2015) *Babies Can Think before They Can Speak*. Ar gael o: <https://www.tasnimnews.com/en/news/2015/05/27/752432/babies-can-think-before-they-can-speak>. (Darllenwyd 9 Ionawr 2022)

The Pikler collection. (2012) *Respectful care is only fair*. Ar gael o: https://thepiklercollection.weebly.com/uploads/9/4/5/3/9453622/toni_respectful_care.pdf. (Darllenwyd 13 Ionawr 2022)

Tops day nurseries. (2017) *Benefits of Treasure Baskets*. Ar gael o: <https://www.topsdaynurseries.co.uk/benefits-treasure-baskets/>. (Darllenwyd 15 Ionawr 2022)

Treasure baskets.
(2018) Ar gael o: https://www.google.co.uk/search?q=treasure+baskets&sxsrf=AOaemvI3xOTyOS6qT95JQeuAZkb_JUc6CQ:1642962402141&source=lnms&tbm=isch&sa=X&ved=2ahUKEwjZle_yv8j1Ah_WIYsAKHRMBAqkQ_AUoAXoECAEQAw&biw=1536&bih=754&dpr=1.25#imgsrc=W_pOAQ6m3tjEhM. (Darllenwyd Ionawr 11 2022)

Treasure baskets.
(2020) Ar gael o: <https://www.youtube.com/watch?v=OngRqlhXS5A>. (Darllenwyd Ionawr 14 2022)

University of Aberdeen.
(2017) Ar gael o: <https://www.abdn.ac.uk/education/research/eitn/journal/archive/50/536/>. (Darllenwyd Ionawr 17 2022)